

# Canllaw Hyfforddiant Rhondda Cynon Taf: Gofal Plant a Chwarae

1 Ebrill 2026 — 31 Mawrth 2027



## Cynnwys:

- 4 Carfan RhCT: Dyma pwy ydyn ni
- 8 Cyflwyniad a Chodio Lliw
- 9 Cadw Lle
- 9 Y Gymraeg a'r Dulliau Cyflwyno
- 9 Hyfforddiant Gofynnol

## Disgrifiad o'r Cwrs

### Cyrsiau Gofynnol

- 10 Cymorth Cyntaf Pediatrig – cwrs 6 awr
- 10 Cymorth Cyntaf Pediatrig – cwrs 12 awr
- 11 Cymorth Cyntaf mewn Argyfwng yn y Gwaith
- 12 Grŵp A Diogelu
- 12 Grŵp B Diogelu
- 13 Grŵp C Diogelu
- 14 Dyletswydd Prevent
- 14 Codi a Chario
- 15 Swyddog Tân
- 15 Hylendid Bwyd Lefel 2
- 16 Deall Ymddygiad Heriol a'i Reoli
- 16 Atal Heintiau
- 17 Alergeddau Bwyd

### Hyfforddiant a Gweithdai DPP

- 17 Hyfforddiant Pontio
- 18 Gweithdy Senarios Diogelu
- 18 Gweithdy Asesu Risg (Cymraeg & Saesneg)
- 19 Gweithdy Darnau Rhydd a Chwarae sy'n peri risg (Cymraeg & Saesneg)
- 19 Gweithdy Cwricwlwm Lleoliadau nas Cynhelir
- 20 Gweithdy ar y Fframwaith Asesu
- 20 Gweithdy Cyd-feddwl Parhaus a Lles Emosiynol (SSTEWE)
- 20 Lles ac Ymwneud - Sesiwn Byr
- 21 Modiwl Dechrau'n Deg - Ymarfer Hunanfyfyrion- Sesiwn Byr
- 21 Gweithdy Pwysigrwydd sgemâu yn nysg pob plentyn
- 22 Y Tair Eifen (Sesiwn 1 - 3)
- 22 Clinigau Cynllun Chwarae

- 23 Hyfforddiant Cynllun Chwarae
- 23 Proses Atgyfeirio Fforwm Blynnyddoedd Cynnar a'r Ymateb Graddedig
- 23 Ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person
- 24 Amgylcheddau Cynhwysol a Darpariaeth Gyffredinol
- 24 Strategaethau ADY
- 25 Datblygiad Cyfathrebu
- 25 Cyfathrebu Cymdeithasol
- 25 Sylw, Chwarae a Rhyngweithio
- 25 Cynorthwyo Dealltwriaeth a Defnydd Geiriau
- 26 Ddatblygiad Sain y Sgwrs
- 26 Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY)
- 26 Cyfathrebwyr Anfodlon (Mudandod dethol)
- 27 Cyflwyniad i Iaith Arwyddion
- 27 Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu a Ffactorau sy'n Dylanwadu ar Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

## **Calendrau Hyfforddiant: Dyddiadau ac Amseroedd**

- 28 Ebrill 2026
- 29 Mai 2026
- 31 Mehefin 2026
- 33 Gorffennaf 2026
- 34 Awst 2026
- 35 Medi 2026
- 37 Hydref 2026
- 39 Tachwedd 2026
- 40 Rhagfyr 2026
- 41 Ionawr 2027
- 43 Chwefror 2027
- 45 Mawrth 2027
  
- 46 Manylion Cyswllt y Garfan

## Carfan RhCT – Dyma Pwy Ydyn Ni:

### Carfan Datblygu Gofal Plant Cyffredinol:

Mae carfan Datblygu Gofal Plant Rhondda Cynon Taf yn cefnogi **pob** darparwr gofal plant gyda hyfforddiant gorfodol wedi'i hariannu, megis Cymorth Cyntaf Pediatrig, diogelu, hylendid bwyd a hyfforddiant addas arall.

Mae'r garfan yn cynnig cefnogaeth i bob lleoliad sy'n cynnwys:



- Cymorth gyda chaledi ariannol
- Grantiau darpariaeth newydd ac ehangu darpariaeth
- Cymorth busnes a chyngor ynghylch llif arian a marchnata
- Gwiriadau iechyd busnes blynyddol
- Cyngor a chefnogaeth ar gyfer sefydlu darpariaethau gofal plant newydd
- Darparu pecyn cymorth gwarchod plant wedi'i hariannu i'r rhai sy'n dymuno dod yn warchodwyr plant cofrestredig
- Mynychu diwrnodau hwyl lleol, achlysuron i'r teulu, ffeiriau swyddi ac achlysuron addas eraill i hyrwyddo gofal plant yn yrfa, a chyllid Cynnig Gofal Plant Cymru
- Asesu digonolrwydd gofal plant ar gyfer yr Awdurdod Lleol ac ymateb i alw rhieni mewn ardaloedd lle mae bylchau yn y ddarpariaeth wedi'u nodi.

Mae modd i chi gysylltu â'r Garfan datblygu Gofal Plant drwy e-bostio:

[CarfanGofalPlant@rctcbc.gov.uk](mailto:CarfanGofalPlant@rctcbc.gov.uk) neu ffonio 01443 570048.

### Carfan Sicrhau Ansawdd Dechrau'n Deg:



Mae'r garfan yma'n rhoi cyngor a chymorth i leoliadau sydd wedi'u cymeradwyo gan Dechrau'n Deg gan eu helpu i roi'r hyn sydd yng Nghlanllawiau Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru, ar waith. Mae hyn oll at ddibenion gofalu bod darpariaeth gofal plant o ansawdd uchel yn cael ei chynnig, a bod ymarferwyr yn rhoi ymarfer effeithiol ar waith.

Mae'n cynnig ystod eang o gyrsiau hyfforddiant DPP, mae'r rhain ar gael i sector y Blynyddoedd Cynnar yn ei gyfanrwydd. Mewn achosion o nodi anghenion hyfforddiant ychwanegol, mae'r garfan yn canfod cyfleoedd hyfforddiant perthnasol pellach ac yna'n cyflwyno'r rhain.

Pan fydd canllaw neu ddeddfwriaeth newydd yn cael ei g/chyflwyno, mae'r garfan yn datblygu pecynnau hyfforddiant pwrpasol er mwyn bod yn gymorth i ddarparwyr o ran gwreiddio'r newidiadau yn eu hymarfer o ddydd i ddydd.

[CWRSTraining@rctcbc.gov.uk](mailto:CWRSTraining@rctcbc.gov.uk)

## **Darparwr Addysg Cofrestredog (DAC):**



A ninnau'n athrawon ymgynghorol addysg gynnar rydyn ni'n cyflawni rôl hanfodol wrth gefnogi a gweithio gydag ymarferwyr sy'n darparu addysg gynnar i blant tair oed mewn lleoliadau nas cynhelir. Rydyn ni'n darparu arweiniad mewn perthynas â'r cwricwlwm, cynllunio, arsylwi ac asesu. Rydyn ni'n rhannu arfer gorau ac yn cefnogi arfer myfyriol i wella hyder a sgiliau addysgeg ymarferwyr.

Claire Lloyd- Thomas- [claire.marie.lloyd-thomas@rctcbc.gov.uk](mailto:claire.marie.lloyd-thomas@rctcbc.gov.uk)

Vicky Baldock- [vicky.baldock@rctcbc.gov.uk](mailto:vicky.baldock@rctcbc.gov.uk)

## **Tîm Cynnig Gofal Plant RhCT i Gymru**

Mae'r tîm Cynnig Gofal Plant Gymru yn Rhondda Cynon Taf yn gweinyddu'r cynllun ar ran Llywodraeth Cymru ac yn prosesu ceisiadau ar ran Cyngor Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful.

Mae cyllid y Cynnig Gofal Plant yn cynnig hyd at 30 awr yr wythnos o addysg feithrin gyfunol a gofal plant ychwanegol a ariennir i rieni cymwys o blant tair i bedair oed, am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn.

Mae'r tîm yn mynychu digwyddiadau hyrwyddo ac yn cynnal sawl digwyddiad hyfforddi gloywi trwy gydol y flwyddyn. Edrychwch ar y canllaw hyfforddi am y dyddiadau sydd ar gael a gwybodaeth ar sut i archebu.

Mae'r tîm ar gael i ddod i sgwrsio â chi yn eich lleoliad, neu gallwn eich helpu dros y ffôn. Gallwn hefyd fynychu unrhyw ddigwyddiadau neu gyfarfodydd rhieni i hyrwyddo'r Cynnig.

I gysylltu â'r tîm neu i drefnu ymweliad â'ch digwyddiad neu leoliad gofal plant, defnyddiwch y

manylion a ddarperir isod:

Rhif Ilinell gymorth – 03000 628628  
Ebost: [childcareofferproviders@rctcbc.gov.uk](mailto:childcareofferproviders@rctcbc.gov.uk)



## **Carfan Blynyddoedd Cynnar – Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant RhCT**

***Suzanne Davidson – Prif Swyddog ADY y Blynyddoedd Cynnar***

***Luci Hooper – Athrawes Ymgynghorol ADY y Blynyddoedd Cynnar***

Mae cymorth Luci yn cael ei ddyrannu trwy Fforwm y Blynyddoedd Cynnar er mwyn i blant gael mynediad at ofal plant cyffredinol, y cynnig gofal plant a lleoliadau addysg cofrestredig. Mae modd i Luci ymweld â lleoliadau er mwyn arsylwi ar blant a chynnig cyngor ar strategaethau ac ymyraethau i gefnogi plant unigol a'r lleoliad.

Yn ogystal â hyn, mae modd iddi ddarparu cymorth sy'n ymwneud â phrosesau Fforwm y Blynyddoedd Cynnar ac ymatebion graddedig ar gyfer pob lleoliad.

Mae'r garfan yn cynnal amrywiaeth o sesiynau hyfforddi drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys ymateb graddedig effeithiol, ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, amgylcheddau cynhwysol, cynlluniau chwarae, strategaethau ADY a phrosesau atgyfeirio ar gyfer Fforwm y Blynyddoedd Cynnar.

Mae Luci'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr o'r Garfan Amlasiantaeth i gynnal Clinigau Cynlluniau Chwarae bob pythefnos.

Dyma gyfeiriad e-bost Luci: [luci.hooper@rctcbc.gov.uk](mailto:luci.hooper@rctcbc.gov.uk)

Os oes gyda chi ymholiad o ran hyfforddiant, e-bostiwch [CynaMyn@rctcbc.gov.uk](mailto:CynaMyn@rctcbc.gov.uk)

## **Gwasanaethau Chwarae RhCT**

Rydym yn darparu pecyn cynhwysfawr o gymorth i helpu Sefydliadau Darparwyr Chwarae a Gomisiynwyd RhCT i ddarparu cyfleoedd chwarae cynhwysol o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc.

Contact: [RCTPlay@rctcbc.gov.uk](mailto:RCTPlay@rctcbc.gov.uk)



## Tîm Amlasiantaeth (MAT)

Mae'r tîm MAT yn cynnwys Seicolegydd Addysgol (EPs), Therrapydd Iaith a Lleferydd (SLTs) a Therapydd galwedigaethol (OT).

Rydym wedi ein hatodi i'r holl lleoliadau Dechrau'n Deg ledled yr Awdurdod Lleol ac yn rhoi cyngor ac arweiniad i'r staff sydd wedi nodi plant ag anghenion newydd sydd yn ymddangos. Rydym yn cynnig sesiynau ymgynghori mewn grwpiau, sesiynau galw heibio unigol ac ymweliadau i'r lleoliadau lle bo'n briodol. Rydym hefyd yn cynnig hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau ehangach gan gynnwys ymwelydd iechyd, nyrsiaid meithrin cymunedol, RSF ar holl lleoliadau gofal plant ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys anghenion sy'n ymddangos, atodiad, ymddygiad, chwarae, prosesu synhwyraidd a anghenion iaith a lleferydd.

Gallwch gysylltu â MAT drwy e-bostio:

[cwrsmat@rctcbc.gov.uk](mailto:cwrsmat@rctcbc.gov.uk)

## Canllaw Hyfforddiant





Croeso i Ganllaw Hyfforddiant 2026-2027.

Mae'r canllaw yma ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio yn y sector Gofal Plant a Chwarae yn RhCT.

Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau ar agor i bob darparwr Gofal Plant a Chwarae, er hynny mae rhai sydd ar gyfer gwasanaethau penodol o fewn y sector. Bydd y rheini wedi'u marcio yn unol â'r tabl isod.

### Codio Lliw:

Rydyn ni wedi defnyddio cod lliw er mwyn gwneud y broses cadw lle yn haws. Bydd y lliwiau yma ger enw pob cwrs hyfforddiant; bydd y lliw yn dangos pwy fydd â mynediad at bob cwrs.

	Pob Lleoliad Gofal Plant
	Lleoliadau Dechrau'n Deg
	Darpariaeth Addysg Gofrestredig
	Gwasanaethau Chwarae

## Cadw Lle ar Gwrs Hyfforddiant

Er mwyn cadw lle ar gwrs hyfforddiant o'ch dewis bydd gofyn i chi glicio ar y ddolen ar y calendr hyfforddiant. Cewch y calendr ar ddiwedd y canllaw yma.

**Nodwch:** Bydd manylion ynghylch cyrsiau hyfforddiant yn cael eu rhyddhau bob tymor. Yn y canllaw yma bydd dolenni cadw lle ar gyfer Ebrill-Awst. Daw diweddariadau pellach i'r calendr wedi hynny, ac mae dyddiadau rhyddhau wedi'u nodi yn y canllaw yma.

## Dulliau Cyflwyno:

Rhaid i o leiaf 6 o bobl fod yn bresennol ar bob cwrs.

Bydd unrhyw gwrs â llai na 6 chyfranogwr yn cael ei ganslo.

Mae angen isafswm rhybudd o 48 awr cyn dechrau'r sesiwn ar gyfer canslo. Dim ond mewn amgylchiadau eithafol y bydd canslo o fewn y 48 awr o ddechrau'r hyfforddiant yn cael eu derbyn fel peidio â phresenol. Pan ystyrir bod peidio â phresenoldeb yn afresymol, bydd gwaharddiad dros dro ar gyfer y lleoliad cyfan am gyfnod o 2 fis yn cael ei weithredu.

## Y Gymraeg:

Pe hoffech chi i'r hyfforddiant gael ei gyflwyno yn y Gymraeg, rhowch wybod i'r garfan berthnasol. Mae modd i'r taflenni sy'n cael eu defnyddio yn y sesiwn fod yn y Gymraeg.

## Hyfforddiant Gofynnol:

Er mwyn gwirio pa gyrsiau gofynnol sydd fwyaf addas i chi, defnyddiwch y ddolen isod i gyrchu Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Arolygiaeth Gofal Cymru.

[48841 National Min standards for regulated childcare for children up to the age of 12 Welsh](#)

## Cyrsiau Gofynnol

### Cymorth Cyntaf Pediatrig – 6 awr



Bydd yr hyfforddiant yma'n ymdrin â'r canlynol:

- Cadw cofnodion
- Rheoli digwyddiad
- Dadebru (adfywio cardio-pwlmonaidd – CPR)
- Defnyddio cyfarpar diffibrilio allanol awtomatig (AED)
- Clwyfau a Gwaedu
- Anafiadau i'r Pen
- Ymdrin â baban neu blentyn sy'n tagu

I ennill y cymhwyster, bydd ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar eu gallu i ddangos technegau cymorth cyntaf, ateb cwestiynau ar lafar, a rhaid iddyn nhw gwblhau asesiad theori byr trwy ateb cwestiynau ar bapur. Mae'r cwrs yn cynnwys gweithgarwch corfforol a gweithgareddau ymarferol. Bydd tystysgrif yn cael ei rhoi a fydd yn ddilys am 3 blynedd.

### Cymorth Cyntaf Pediatrig – 12 awr



Bydd yr hyfforddiant yma'n ymdrin â'r canlynol:

- Cadw cofnodion
- Rheoli digwyddiad
- Dadebru (adfywio cardio-pwlmonaidd – CPR)
- Defnyddio cyfarpar diffibrilio allanol awtomatig (AED)
- Clwyfau a Gwaedu
- Anafiadau i'r Pen
- Ymdrin â baban neu blentyn sy'n tagu

I ennill y cymhwyster, bydd ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar eu gallu i ddangos technegau cymorth cyntaf, ateb cwestiynau ar lafar, a rhaid iddyn nhw gwblhau asesiad theori byr trwy ateb cwestiynau ar bapur. Mae'r cwrs yn cynnwys gweithgarwch corfforol a gweithgareddau ymarferol. Bydd tystysgrif yn cael ei rhoi a fydd yn ddilys am 3 blynedd.

## Cymorth Cyntaf mewn Argyfwng yn y Gwaith



Bydd y canlynol yn cael sylw yn yr hyfforddiant yma:

- Rolau a chyfrifoldebau swyddog cymorth cyntaf
- Lleihau'r risg o haint
- Bydd eraill efallai'n cynnwys y rhai sydd wedi'u hanafu, cydweithwyr neu bobl yn yr amgylchedd gwaith. Nodi'r angen i dderbyn caniatâd
- Asesu'r safle
- Dilyn y camau asesu sylfaenol
- Galw am gymorth priodol
- Gwybod pryd i ddechrau adfywio cardio-pwlmonaidd
- Dangos sut mae gwneud adfywio cardio-pwlmonaidd
- Rhoi'r person sydd wedi'i anafu yn yr ystum adfer.
- Monitro llwybr anadlu ac anadlu'r person yn barhaus
- Rhoi cymorth cyntaf i berson sy'n cael trawiad
- Adnabod achosion ysgafn o dagu
- Adnabod achosion difrifol o dagu
- Adnabod pa mor ddifrifol ydy'r gwaedu o rydweli
- Triniaeth gwaedu difrifol
- Rhoi triniaeth i bobl mewn sioc
- Cymorth cyntaf ar gyfer briwiau a chrafiadau bach i'r croen, cleisiau, fflawiau, gwaed o'r trwyn a llosgiadau bach.

## Grŵp A Diogelu



Nod y safonau yw rhoi dealltwriaeth i chi am ddiogelu a'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud mewn achosion o niwed neu gamdriniaeth wirioneddol neu bosibl.

Mae'n ofynnol i ymarferwyr sydd wedi'u cynnwys yng ngrŵp A fod yn effro i faterion diogelu ac felly mae'r safonau yn y grŵp yma wedi'u gosod i adlewyrchu'r lefel ofynnol o wybodaeth ac ymarfer sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl. Er enghraifft, bydd ymarferydd grŵp A yn gwybod bod cyfraith sy'n diogelu pobl.

Egwyddorion cofiadwy:

- Rydw i'n gwybod beth yw ystyr 'diogelu'
- Rydw i'n gwybod pa bethau i edrych allan amdanyn nhw
- Rydw i'n gwybod at bwy i adrodd
- 

Er mwyn cyrchu'r hyfforddiant yma, defnyddiwch y ddolen isod:

<https://gofalcymdeithasol.cymru/modiwlau-dysgu/grwp-a-diogelu>

## Grŵp B Diogelu



Mae ymarferwyr Grŵp B yn treulio amser gyda phobl mewn lleoliad grŵp neu ar sail un-i-un. Bydd gyda nhw gyfrifoldeb arbennig mewn perthynas â'r bobl y maen nhw'n gweithio gyda nhw. Bydd angen lefel uwch o wybodaeth arnyn nhw na'r rhai yng ngrŵp A oherwydd eu cysylltiad uniongyrchol â phobl. Efallai y bydd gan y bobl y maen nhw'n gweithio gyda nhw bryderon diogelu neu efallai ddim.

Os oes pryderon diogelu, bydd llinell adrodd glir yn y sefydliad a bydd yr ymarferydd yn deall ei gyfrifoldeb i roi gwybod am bryderon, yn fewnol ac i'r gwasanaethau cymdeithasol yn uniongyrchol.

Fydd gan yr ymarferwyr yma ddim rôl statudol mewn perthynas â'r broses ddiogelu a fydden nhw ddim yn rhan o grwpiau craidd nac yn rhan o gynllunio diogelu. Fydd dim disgwyl iddyn nhw roi cyngor i eraill ar faterion diogelu.

Egwyddorion cofiadwy:

- Rydw i'n rhan allweddol o'r broses ddiogelu
- Rydw i'n gwybod pryd, sut ac i bwy i roi gwybod
- Byddaf i'n gofalu bod llais yr unigolyn yn cael ei glywed

## Grŵp C Diogelu



Ymarferwyr Grŵp C yw'r rhai sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am ddiogelu pobl, h.y pobl:


- sydd â rôl asesu sy'n gysylltiedig â'r broses ddiogelu a / neu
- sy'n gweithredu ar lefel lle mae modd iddyn nhw roi cyngor ar ddiogelu i'r rhai yng ngrŵp A a grŵp B a/neu
- mewn lleoliad lle maen nhw'n gweithio neu'n ei reoli a/neu
- y maen nhw'n treulio llawer o amser gyda nhw heb oruchwyliaeth ac efallai y bydd pryderon diogelu.

Mae ymarferwyr Grŵp C hefyd yn cynnwys y bobl sy'n gyfrifol am ddiogelu ar gyfer eu sefydliad a phobl sy'n chwarae rhan fwy blaenllaw mewn gwneud penderfyniadau diogelu, gan gynnwys y rhai sydd â rôl weithredol mewn grwpiau craidd a gweithgareddau cynllunio diogelu.

Mae'n bosibl y gallai ymarferwyr Grŵp C gyfrannu at asesu, cynllunio, ymyrryd ac adolygu anghenion pobl lle mae pryderon diogelu, neu gymryd rhan lawn yn y gwaith hwnnw.

Mae angen iddyn nhw wneud penderfyniadau ynghylch cadw pobl yn ddiogel a phryd y mae angen iddyn nhw roi prosesau diogelu ar waith. Bydd angen i'r ymarferwyr yma feddu ar yr holl wybodaeth a dealltwriaeth o'r safonau yng ngrwpiau A a B ynghyd â gwybodaeth ychwanegol i sicrhau eu bod nhw'n cyflawni eu rôl yn unol â'r gyfraith. Er enghraifft, bydd modd i ymarferwyr grŵp C ddeall y gyfraith a'i chymhwyso i'w harfer diogelu ac amddiffyn o ddydd i ddydd.

## Dyletswydd Prevent



Mae Prevent yn eistedd ochr yn ochr â dyletswyddau diogelu hirsefydlog gweithwyr proffesiynol i ddiogelu pobl rhag ystod o niwed arall megis cam-drin sylweddau, cymryd rhan mewn gangiau a chamfanteisio corfforol a rhywiol.

Nod Prevent yw:

- mynd i'r afael ag achosion ideolegol terfysgaeth
- ymyrryd yn gynnar i gefnogi pobl sy'n agored i gael eu radicleiddio
- galluogi pobl sydd eisoes wedi cymryd rhan mewn terfysgaeth i ymddieithrio ac ailsefydlu.

Yn y cyrsiau hyfforddi yma, byddwch chi'n dysgu am:

- ddyletswyddau Prevent
- gwahanol ideolegau eithafol a all arwain at derfysgaeth
- y risg o ran radicleiddio a'ch rôl gefnogol
- gwneud atgyfeiriad i Prevent sy'n wybodus ac yn cael ei wneud gyda bwriad da
- yr ymyriadau a'r cymorth sydd ar gael.

<https://www.support-people-vulnerable-to-radicalisation.service.gov.uk/>

## Codi a Chario



Bydd yr hyfforddiant yma'n ymdrin â'r canlynol:

- Agwedd Ergonomig ar Godi a Chario ar gyfer ymarferwyr gofal plant a fydd yn cynnwys elfennau ymarferol gweithio mewn lleoliadau Blynnyddoedd Cynnar, gan gynnwys:
- Anhwylderau cyhyrysgerbydol
- Technegau codi a chario plant yn gywir
- Iechyd a diogelwch
- Addasiadau rhesymol ac asesiadau risg personol
- Anghenion meddygol
- Gwrthrychau llonydd
- Babanod nad ydyn nhw'n symud o gwmpas
- Parhau i gydymffurfio â deddfwriaeth

## Swyddog Tân



Mae'r cwrs yma wedi'i ddylunio at ddibenion rhoi'r hyfforddiant damcaniaethol angenrheidiol i'r sawl sy'n bresennol o ran cymhwyso yn Swyddog Tân.

Bydd dyletswyddau cyfreithiol yn cael eu trafod yn ystod y cwrs, a bydd cyfranogwyr yn dod i ddeall tân, yn ymgylfarwyddo â pheryglon o ran tân, ac yn dod i ddeall trefniadau diogelwch tân. Bydd sylw'n cael ei roi hefyd i'r hyn ddylai fod yn rhan o weithdrefnau gwacau adeiladau.

Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno yn y cwrs yma yn galluogi cyfranogwyr i gymryd cyfrifoldeb dros ddiogelwch tân yn eu gweithle ac amddiffyn llesiant pawb.

Cynnwys y cwrs:

- Beth yw diogelwch tân a pham y mae mor bwysig?
- Deddfwriaeth bresennol a'i rhoi ar waith
- Dyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl
- Dod i ddeall tân: y triongl tân, sylweddau peryglus a Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd
- Aseiad perygl o ran tân: cynnwys y broses 5 cam.
- Trefniadau diogelwch tân, gan gynnwys ei atal, gwirio offer, canfod tân, systemau rhybuddio a mathau o ddiffoddwyr/blancedi tân
- Llwybrau ac arwyddion gwacau adeilad
- Cynlluniau ar gyfer argyfyngau, gweithdrefnau gwacau adeilad ac ymarferion tân

## Hylendid Bwyd Lefel 2



Bydd yr hyfforddiant yma'n ymdrin â'r canlynol:

- Bwydydd risg uchel
- Achosion o wenwyn bwyd a sut i'w hatal
- Cynhyrchu bwyd diogel
- Deddfwriaeth diogelwch bwyd
- Glanhau
- Cynllun y safle
- Rheoli Tymheredd
- Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol – Trosolwg

I gael mynediad i'r cwrs hwn, e-bostiwch: [Childcareteam@rctcbc.gov.uk](mailto:Childcareteam@rctcbc.gov.uk)

## Deall Ymddygiad Heriol a'i Reoli



Mae'r cwrs yma wedi'i gynllunio i ddarparu cyflwyniad i aelodau o staff i ymddygiad heriol mewn lleoliad gofal plant. Mae'n ceisio ystyried pam y mae ymddygiadau yn ymddangos yn y lle cyntaf ac yn trafod pwysigrwydd cofnodi ac adolygu er mwyn asesu tueddiadau a phatrymau ymddygiad er mwyn cyfeirio atyn nhw yn y dyfodol. Mae Southpoint Training yn ceisio gweddu'r cynnwys i'r ystod oedran y byddai'r rheiny sy'n cymryd rhan yn eu cynorthwyo, o blant mewn meithrinfeydd, gofal oriau dydd, lleoliadau gwarchod plant, ysgolion, i blant yn eu harddegau a phobl ifainc. Dylid dilyn y cwrs yma gyda Rheoli Ymddygiad Heriol (Rhan 2) a fydd yn canolbwyntio ar strategaethau i fod yn sail i reoli ymddygiad cadarnhaol mewn lleoliad gofal plant.

### Cynnwys y cwrs:

- Beth yw ymddygiad Heriol?
- Ymddygiad heriol fel dull cyfathrebu
- Ffactorau personol ac amgylcheddol sy'n dylanwadu ar ymddygiad heriol
- Sbardunau ac arwyddion rhybudd
- Gofod personol
- Asesiad Risg a Chofnodi
- Diogelu
- Deddfwriaeth
- Polisiau gwrth-fwlio

## Atal Heintiau



Beth fydd cynnwys yr hyfforddiant:

- Deall yr hyn yw micro-organebau pathogenig a sut y mae modd i chi eu rheoli
- Gwybod sut i gadw'r rheiny sy'n agored i niwed yn ddiogel rhag heintiau a dysgu'r camau gweithredu angenrheidiol
- Gwerthuso risgiau'r haint yn effeithiol a rhoi camau atal ar waith
- Dysgu am arferion gorau hylendid personol gan fod hyn yn cael effaith sylweddol ar reoli heintiau. Dysgu'r arferion gorau
- Dysgu am y gwahanol fathau o Gyfarpar Diogelu Personol a sut i'w defnyddio nhw'n effeithiol

Mae modd lleihau'r risg o haint trwy drin gwastraff yn briodol.

I gael mynediad i'r cwrs hwn, e-bostiwch: [Childcareteam@rctcbc.gov.uk](mailto:Childcareteam@rctcbc.gov.uk)

## Alergenau Bwyd



Bydd yr hyfforddiant yma'n ymdrin â'r canlynol:

Alergenau ac adweithiau alergaidd

Anaffylacsis

Alergenau wedi'u rheoleiddio

Eithriadau o ran labelu alergenau bwyd

Rheoli alergenau


Y gofynion o ran labelu

Rheoli alergenau.

I gael mynediad i'r cwrs hwn, e-bostiwch: [Childcareteam@rctcbc.gov.uk](mailto:Childcareteam@rctcbc.gov.uk)

## Hyfforddiant a Gweithdai DPP

### Hyfforddiant Pontio



Mae'r hyfforddiant yma wedi'i ddatblygu yn dilyn Prosiect Pontio Rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar ledled Cwm Taf Morgannwg. Mae wedi'i greu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Bartneriaeth Dysgu.

Nod yr hyfforddiant yw sicrhau ansawdd a chysondeb trefniadau Pontio'r Blynyddoedd Cynnar i bob plentyn a'u teuluoedd. Y bwriad yw mabwysiadu dull cyffredin ledled y tri awdurdod lleol yng Nghwm Taf Morgannwg (Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a RhCT).

Bydd yr hyfforddiant yma'n ymdrin â'r canlynol:

- Dysgu Proffesiynol (DP)
- Mathau o Bontio
- Effaith Pontio
- Ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn
- Dulliau Pontio ledled rhanbarth Cwm Taf

## Gweithdy Senarios Diogelu



Bydd y gweithdy yn cynnwys: -

- Trafodaethau am sut rydyn ni'n cydnabod pryderon o ran diogelu a'r prosesau i'w dilyn i sicrhau diogelwch plant a phobl ifainc mewn sefyllfaoedd o gam-drin, niwed ac esgeulustod.
- Deall rolau a chyfrifoldebau.
- Cydnabod beth sy'n gyfystyr â phryder diogelu.
- Sut i gofnodi digwyddiadau a phryderon yn glir ac yn gywir.
- Sut i gadw cofnodion cyfrinachol yn briodol ac yn ddiogel.
- Pryd y dylid gwneud atgyfeiriad


## Gweithdy Asesu Risg (Cymraeg & Saesneg)



Bydd y gweithdy yn ymdrin â'r canlynol: -

- Beth yw asesiad risg a pham y mae'n rhan hanfodol o ymarfer diogel?
- Deddfwriaeth berthnasol a pholisïau sy'n sail i asesu risg effeithiol.
- Termau a diffiniadau allweddol sy'n berthnasol i beryglon a risg
- Gwahanol fathau o asesiadau risg y mae modd eu defnyddio.
- Adnabod beth sydd angen asesiad risg, gan gynnwys offer, symudedd, amgylchedd, gweithgareddau, iechyd, bwyd ac ymddygiad
- Offer a strategaethau asesu risg
- Pwysigrwydd cofnodi canfyddiadau, adolygu a gweithredu newidiadau angenrheidiol.

## Gweithdy Darnau Rhydd a Chwarae sy'n peri risg (Cymraeg & Saesneg)



Bydd y gweithdy yn ymdrin â'r canlynol: -

- Beth yw darnau rhydd?
- Manteision darnau rhydd
- Cyflwyno darnau rhydd yn eich lleoliad
- Diogelwch wrth ddefnyddio darnau rhydd
- Beth yw chwarae sy'n peri risg?
- Pwysigrwydd chwarae sy'n peri risg
- Buddion chwarae sy'n peri risg
- Diogelwch wrth chwarae sy'n peri risg

## Gweithdy Cwricwlwm Lleoliadau nas Cynhelir



Bydd y gweithdy yn: -

- Cefnogi lleoliadau i ymgorffori'r Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau nas Cynhelir yn effeithiol.
- Darparu trosolwg o'r Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau nas Cynhelir yng Nghymru.
- Datblygu dealltwriaeth a hyder ymarferwyr i lunio dogfennaeth cynllunio ystyrlon.
- Diffinio rôl yr oedolyn a'r amgylchedd dysgu o ran cefnogi ymarfer o ansawdd uchel
- Datblygu dealltwriaeth o gynllunio yn y fan a'r lle
- Trafod gofynion arsylwi ac asesu a sut maen nhw'n helpu i gynllunio'n ymatebol.

## Gweithdy ar y Fframwaith Asesu



Bydd y gweithdy yn: -

- Archwilio'r gwahanol fathau o ddulliau arsylwi a phryd i'w defnyddio nhw'n effeithiol.
- Rhoi trosolwg o beth sy'n cyfrif fel arsylwad o ansawdd uchel.
- Datblygu dealltwriaeth o sut i goladu gwybodaeth o arsylwad a dogfennaeth eraill i ddarparu asesiadau cyfunol ystyrlon a manwl.

## Gweithdy Cyd-feddwl Parhaus a Lles Emosiynol (SSTEW)



Bydd y gweithdy yn: -

- Canolbwyntio ar sut i hyrwyddo a datblygu sgiliau datrys problemau a meddwl yn feirniadol mewn lleoliadau gofal plant.
- Rhannu syniadau ynglŷn â sut i annog cyd-feddwl parhaus trwy ymchwilio ac archwilio.
- Cefnogi ymarferwyr er mwyn iddyn nhw helpu plant i ddatblygu cysyniadau o feddwl ar radd uwch.
- Archwilio dulliau o ehangu'r dysgu trwy hyrwyddo sgiliau datrys problemau ac arwain plant i feddwl yn feirniadol.


## Lles ac Ymwneud - Sesiwn Byr



Bydd y gweithdy yn:-

- Cyflwyno Graddfeydd Leuven a'u diben.
- Edrych ar pam, beth a sut y cafodd Graddfeydd Leuven eu datblygu.
- Archwilio'r arwyddion a'r graddfeydd Lles
- Archwilio'r arwyddion a'r graddfeydd Ymwneud
- Cyflwyno dysgu arbrofol a'i gysylltiad i Raddfeydd Leuven
- Dangos sut i roi graddfeydd Leuven ar waith yn eich lleoliadau Blynyddoedd Cynnar.
- Trafod rôl yr oedolyn wrth gefnogi lles ac ymwneud plant.

## Modiwl Dechrau'n Deg - Ymarfer Hunanfyfyrion- Sesiwn Byr



Bydd y gweithdy yn:

- Archwilio beth yw hunanfyfyrion a pham y mae'n elfen hanfodol o ymarfer proffesiynol.
- Ystyried pwysigrwydd ymgysylltu'n weithredol mewn hunanfyfyrion i wella a datblygu ymarfer.
- Darparu trosolwg o ddogfennau Sicrhau Ansawdd Dechrau'n Deg RhCT (Cynllun Sicrhau Ansawdd a Chyd-feddwl Parhaus a Lles Emosiynol (SSTEW))
- Cefnogi ymarferwyr i roi proses hunanfyfyrdod ar waith mewn lleoliadau gofal plant i lunio a chryfhau cynlluniau datblygu.


## Gweithdy Pwysigrwydd sgemâu yn nysg pob plentyn



Bydd y gweithdy yn:

- Datblygu dealltwriaeth o beth yw sgema a sut mae sgemâu'n gallu cael eu harsylwi trwy ymddygiad a chwarae plant.
- Archwilio pwysigrwydd adnabod a chefnogi sgemâu mewn dysgu ac yn yr amgylchedd.
- Adnabod sut mae sgemâu gwahanol yn edrych mewn ymarfer.
- Deall rôl sgemâu mewn dysgu a datblygu.
- Archwilio'r ystod o sgemâu cyffredin sydd i'w gweld yn y blynyddoedd cynnar.

## Y Tair Efen (Sesiwn 1 - 3)



Mae'r sesiynau rhyngweithiol yma'n trin a thrafod y tair elfen sy'n sail i arfer blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel. Bydd cyfranogwyr yn dysgu strategaethau ymarferol er mwyn:

- Creu profiadau sy'n ennyn diddordeb a fydd yn ysbrydoli chwilfrydedd a dysgu
- Creu amgylcheddau effeithiol sy'n ddiogel, yn gynhwysol, ac yn ysgogol
- Grymuso oedolion i gefnogi datblygiad plant yn hyderus

Bydd pob sesiwn yn cynnwys gweithgareddau ymarferol, esiamplau bywyd go iawn, a thrafodaethau grŵp a fydd yn darparu cymorth a syniadau i'w rhoi ar waith yn eich lleoliad yn syth.

Bydd ymarferwyr yn gadael y sesiynau gyda thechnegau ymarferol i wella dysgu, gwneud y gorau o'u hamgylcheddau, a gwella ansawdd y rhyngweithio rhwng yr oedolyn a'r plentyn, gan gefnogi deilliannau gwell i bob plentyn.

**Nodwch fod pob elfen yn cael ei thrafod mewn sesiynau ar wahân.**

## Clinigau Cynllun Chwarae



Galw heibio anffurfiol bob pythefnos i leoliadau a gwarchodwyr plant gael mynediad at gymorth gyda chynlluniau chwarae. Bydd yn rhoi cyfle i ddatrys problemau a gofyn cwestiynau ar gyfer popeth sy'n gysylltiedig â Cynllun Chwarae. Gallai hyn gynnwys: cwestiynau sy'n ymwneud â

Cynlluniau chwarae, targedau a chyngor proffesiynol dehongli, mewnbwn gan weithwyr proffesiynol eraill yn y sesiwn a'r wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi ac atgyfeirio Fforwm EY.

## Hyfforddiant Cynllun Chwarae

Bydd yr hyfforddiant hwn yn eich tywys trwy'r broses o ysgrifennu cynllun chwarae effeithiol, beth sy'n gwneud targed da, sut i weithredu'r rhain a sut i adolygu a gwerthuso'n effeithiol. Bydd hefyd yn trafod meysydd fel cynnwys cyngor gan weithwyr proffesiynol eraill a sut y bydd Cynllun Chwarae yn bwydo i mewn i ymateb graddedig i blentyn. Byddwn hefyd yn ymdrin â'r hyn sy'n mynd ble mewn cynllun chwarae a sut mae proffil About Me yn ffitio i mewn.

## Proses Atgyfeirio Fforwm Blynyddoedd Cynnar a'r Ymateb Graddedig

Bydd y sesiwn hon yn ymdrin â'r ffurflen atgyfeirio a'r broses ar gyfer atgyfeirio Fforwm Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant Blynyddoedd Cynnar (nad ydynt yn mynychu'r ysgol). Bydd y sesiwn yn mynd trwy'r broses o lenwi'r ffurflen atgyfeirio, y meini prawf sydd angen eu bodloni, y dystiolaeth sydd ei hangen gydag atgyfeiriad a phroses y Fforwm Blynyddoedd Cynnar. Bydd hefyd yn cwmpasu'r defnydd o offer PCP, rhestr wirio ymateb graddedig, a'r hyn sy'n digwydd ar ôl eich atgyfeiriad at Fforwm Blynyddoedd Cynnar. Mae'r sesiwn yn agored i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant mewn lleoliad gofal plant neu gyda gwarchodwr plant. Byddai'n fwyaf addas i ALNCOs fynychu ond mae croeso i unrhyw aelod o staff sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau.

## Ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person

Bydd y sesiwn hon yn ymdrin â gwybodaeth a dealltwriaeth o beth yw Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar y Person (PCP)? Pam mae'n ddefnyddiol? Sut ydyn ni'n gwneud PCP? Sut olwg sydd ar PCP yn y lleoliadau Blynyddoedd Cynnar?

Bydd y sesiwn hon yn cynnwys:

- gweithio gyda'i gilydd gyda rhieni/gofalwyr
- offer PCP mwyaf defnyddiol a sut i'w defnyddio'n effeithiol
- Defnyddio siartiau cyfathrebu
- Dad-ddewis y gwahaniaethau rhwng yr hyn sy'n bwysig i blant
- nodi beth sy'n gweithio'n dda/ddim yn gweithio
- Proffiliau All About Me – Beth sy'n gwneud AMP da a beth i'w osgoi.

## Amgylcheddau Cynhwysol a Darpariaeth Gyffredinol




Bydd y sesiwn hon yn edrych ar bwysigrwydd cynhwysiant mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar prif ffrwd. Byddwn yn ymdrin â'r carfanau newidiol y mae lleoliadau yn eu profi a'r newid mewn agweddau a disgwyliadau.

Byddwn hefyd yn edrych ar sut y gallwn wneud ein darpariaethau yn fwy cynhwysol a sut y gallwn wella ein P cyffredinol

Cynnig darpariaeth i gefnogi'r garfan sy'n newid.

Bydd awgrymiadau o ba strategaethau y gellir eu hadeiladu i ymarfer bob dydd a sut y gellir cyflawni hyn yn eich lleoliad. Bydd y sesiwn hon yn sesiwn bersonol i alluogi trafodaeth a deialog o ansawdd gwerthfawr.

## Strategaethau ADY




Bydd y sesiynau hyn yn edrych ar strategaethau ac ymyriadau cyffredin a defnyddiol ar gyfer plant blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn darparu cyngor ymarferol a modelu i staff eu cymryd yn ôl a'u defnyddio yn y lleoliad. Bydd pob sesiwn yn cwmpasu dau ymyriad gwahanol a bydd yn cwmpasu pob un o'r 6 erbyn diwedd y flwyddyn. Awgrymir bod pob lleoliad yn mynychu un sesiwn fesul tymor er mwyn cael mynediad i'r ystod lawn o strategaethau a gwmpesir. Bydd gan bob tymor ddewis o amseroedd a lleoliadau. Bydd strategaethau cyffredin a gwmpesir yn cynnwys:

- Rhyngweithio Dwys
- Amser bwced
- Gemau Disgwyl
- Amser y llawr
- Gwrthrychau Cyfeirio
- Delweddau

& Mwy...

## Datblygiad Cyfathrebu



Bydd y sesiwn yma'n un damcaniaethol yn bennaf ac yn edrych ar elfennau o ddatblygiad plentyndod cynnar sy'n cael effaith ar gyfathrebu a rhyngweithio.

## Cyfathrebu Cymdeithasol



Yn ogystal â datblygiad geirfa a sain lleferydd, mae gan sgiliau cyfathrebu cymdeithasol ran enfawr i'w chwarae yng ngallu plentyn i rhyngweithio ag eraill. Bydd y sesiwn yma'n bwrw golwg ar anawsterau cyfathrebu cymdeithasol a sut mae modd i ni gynorthwyo â datblygiad cynnar y sgiliau yma.

## Sylw, Chwarae a Rhyngweithio



Mae sylw a chwarae yn flocliau adeiladu hanfodol ar gyfer cyfathrebu. Bydd y sesiwn yma'n canolbwyntio ar sut mae sylw a chwarae'n datblygu a strategaethau ymarferol i gynorthwyo â datblygiad y sgiliau yma mewn lleoliad. Mae modd i'r sesiwn yma fod yn ddefnyddiol ar gyfer pryderon sy'n ymwneud â phlant sydd â sgiliau cyfathrebu cyfyngedig e.e. y rheiny sydd yng nghamau cynnar siarad, neu ddim yn siarad eto, ac i'r plant sy'n cael trafferth cymryd rhan yn narpariaeth y feithrinfa.

## Cynorthwyo Dealltwriaeth a Defnydd Geiriau



Bydd y sesiwn yma'n canolbwyntio ar strategaethau ymarferol er mwyn cynorthwyo datblygiad iaith. Mae modd i'r sesiwn fod yn ddefnyddiol i'r rheiny sy'n chwilio am strategaethau lleoliad cyfan ynghyd â strategaethau i gynorthwyo plant sydd efallai wedi oedi o ran datblygiad iaith.

## **Ddatblygiad Sain y Sgwrs**



Mae'r sesiwn hwn yn ymwneud a sut y gallwn gwneud sain arbenig a sut y gallant ddatblygu sain mewn segwen datblygu. Mae'r sesiwn hwn yn edrych ar yr hyn sydd yn gyffredinol a'n anhygoela sut l gefnogi plant yn eich sefydliad sy'n gallu

## **Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY)**



Yn y Deyrnas Unedig, mae amlieithrwydd yn nodwedd sy'n cynyddu o ran pwysigrwydd. Mae 10% o ddisgyblion yng Nghymru yn defnyddio Saesneg fel Iaith Ychwanegol (StatsCymru, 2024). Bwriad y sesiwn yma yw codi ymwybyddiaeth o ddatblygiad ieithyddol plant sy'n ddwyieithog.

## **Cyfathrebwyr Anfodlon (Mudandod dethol)**



Bydd y sesiwn yma'n canolbwyntio ar siaradwyr anfodlon/mudandod dethol; gan drafod sut mae plant yn cyfleu hynny yn eich lleoliad, deall rhai o'r rhesymau pam efallai bod plentyn yn siaradwr anfodlon, a strategaethau y mae modd eu defnyddio i roi cymorth i blant sydd efallai'n siaradwyr anfodlon yn eich lleoliadau chi

## Cyflwyniad i Iaith Arwyddion

Mae defnyddio iaith arwyddion ac ystumiau yn eich lleoliad yn gallu helpu i:

- Rhoi cliwiau ychwanegol i blant er mwyn eu helpu nhw i ddeall beth sy'n cael ei ddweud yn well
- Cynyddu geirfa
- Cynnig ffordd o gyfathrebu sy'n haws i'w defnyddio ar gyfer plant sydd ddim wedi dysgu geirfa eto
- Lleihau rhwystredigaeth y disgyblion achos eu bod nhw'n gallu dangos i chi beth y maen nhw'n ei olygu heb ddefnyddio geiriau
- Gwella sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio megis cymryd tro a rhannu sylw

Bydd cyfle yn ystod y sesiwn yma i ddysgu ac ymarfer arwyddion y bydd modd eu defnyddio yn rhan o darpariaeth gyffredinol.

## Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu a Ffactorau sy'n Dylanwadu ar Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

Bydd y sesiwn hon yn archwilio anghenion iaith a chyfathrebu lleferydd, gan gynnwys:

- Stammering
- Anhwylder iaith Datblygiadol
- Apraxia lleferydd plentyndod

Bydd hefyd yn edrych ar amodau a all effeithio ar ddatblygiad iaith, gan gynnwys:

- Nam ar y clyw (gan gynnwys Glue Ear)
- Anhwylder Sbectrwm Awtistig
- Anhwylder diffyg sylw

Byddwn hefyd yn chwalu rhai themâu cyffredin gan gynnwys defnyddio ffug a chlymau gwefus / tafod.

# Ebrill 2026


## Amserlen Hyfforddiant yn amodol ar argaeledd

